# Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru

## Bwrdd Ymgynghorol Sector Preifat – Rôl Ymgynghori

Mynegiant o Ddiddordeb

**Version 2**
26 Mawrth 2024

# Mynegai

**Mynegiant o Ddiddordeb** ..... **2**
**Ynglŷn â'r ffurflen hon** ..... 2
**Adran 1 – Gwybodaeth gyswllt** ..... 3
**Adran 2 – Manylion Arbenigedd** ..... 4
**Adran 3 – Hanes Gwaith** ..... 5
**Adran 4 - Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan)** ..... 6
**Adran 5 – Gweithgarwch Gwleidyddol** ..... 7
**Adran 6 – Ymrwymiad** ..... 8
6.1 Ymrwymiad i'r rôl ..... 8
6.2 Ymrwymiadau Blaenorol ..... 8
**Adran 7 – Datganiad** ..... 9
**Atodiad 1: Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus** ..... 10

# Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru

## Bwrdd Ymgynghorol Sector Preifat – Rôl Ymgynghori

## Mynegiant o Ddiddordeb

### Ynglŷn â'r ffurflen hon

Dylid defnyddio'r ffurflen hon i fynegi diddordeb tuag at rôl y Bwrdd Ymgynghorol Sector Preifat.

Bydd y Mynegiant o Ddiddordeb yn dechrau'r broses asesu dau gam. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu o'r penderfyniadau ar ôl derbyn y Mynegiant o Ddiddordeb.

Llenwch y ffurflen hon ynghyd â dogfennau atodol (h.y. CV) a'i dychwelyd at Kristy Tillman, Pennaeth Polisi a Gweinyddu Busnes ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru drwy e-bostio Kristy.Tillman@abertawe.gov.uk, gan ddefnyddio'r pwnc 'SWWCJC PSAB EoI'.

Mae'r ffurflen yn cynnwys saith adran fel a ganlyn:

Adran 1 – Gwybodaeth gyswllt

Adran 2 - Manylion Arbenigedd (Sgiliau, Gwybodaeth, Profiad a Hyfforddiant)

Adran 3 – Hanes Gwaith

Adran 4 - Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan)

Adran 5 – Gweithgarwch Gwleidyddol

Adran 6 – Ymrwymiadau

Adran 7 – Datganiad

Atodiad 1 - Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus *Cyhoeddwyd 31 Mai 1995*

Sylwch y bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo i gyrraedd cam dau yn cael y cyfle i roi rhagor o fanylion am eu haddasrwydd fel rhan o'r broses gyfweld.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, dylech eu gofyn i'r Pennaeth Polisi a Gweinyddu Busnes ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru drwy e-bostio Kristy.Tillman@abertawe.gov.uk.

## Adran 1 – Gwybodaeth gyswllt

| | |
|---|---|
| Enw cyswllt | |
| Sefydliad | |
| Cyfeiriad y Sefydliad | |
| E-bost cyswllt | |
| Rhif Ffôn Cyswllt | |

**Adran 2 – Manylion Arbenigedd**

Dywedwch wrthym am eich meysydd arbenigedd, ynghyd â sgiliau, gwybodaeth, profiad a hyfforddiant y gallwch gefnogi rôl Ymgynghorydd sy'n cefnogi Bwrdd Ymgynghorol Sector Preifat ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru.

Mae croeso i chi gyfeirio at CV a'i atodi fel rhan o'r ymateb.

Sylwer*. Gweler y Ddogfen Canllawiau a Manyleb i gael rhagor o fanylion am y rôl.*

**Adran 3 – Hanes Gwaith**

Nodwch benodiadau â thâl neu heb dâl i ddangos sgiliau a phriodoleddau tuag at rôl ymgynghorydd.

Ar gyfer pob penodiad, rhowch fanylion yn eich ymateb i'r canlynol; *Rôl, Sefydliad, Cyfeiriad y Sefydliad, Cyfrifoldebau a Chyflawniadau.*

**Adran 4 - Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Egwyddorion Nolan)**

Mae Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (a elwir hefyd yn Egwyddorion Nolan) yn berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio fel deiliad swydd gyhoeddus.

Mae hyn yn cynnwys pawb sy'n cael eu hethol neu eu penodi i swydd gyhoeddus, yn genedlaethol ac yn lleol, a'r holl bobl a benodir i weithio yn y Gwasanaeth Sifil, llywodraeth leol, yr heddlu, y llysoedd a'r gwasanaethau prawf, cyrff cyhoeddus anadrannol, ac yn y gwasanaethau iechyd, addysg, cymdeithasol a gofal.

Mae'r holl ddeiliaid swydd gyhoeddus yn weision i'r cyhoedd ac yn stiwardiaid adnoddau cyhoeddus. Mae'r egwyddorion hefyd yn berthnasol i bawb mewn sectorau eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Pwyllgor Safonau Cyhoeddus wedi nodi'r saith egwyddor o fywyd cyhoeddus y mae'n credu y dylai fod yn berthnasol i bawb yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Wrth wneud cais am y swydd hon rydych yn ymrwymo i'r egwyddorion fel y'u nodir yn **Atodiad 1** i'r ddogfen hon. Gofynnir i bob cynrychiolydd o'r sector preifat lofnodi Cytundeb Ymgynghorwyr yn eu gorfodi i gydymffurfio ag egwyddorion sylfaenol Côd Ymddygiad Aelodau y mae'n rhaid i aelodau cyfetholedig gytuno iddynt.

Mae'r cytundeb ymgynghorwyr ar gael ar gais.

**Adran 5 – Gweithgarwch Gwleidyddol**

Nodwch a oes unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol, drwy dicio'r blwch.

Sylwer. Yn dibynnu ar yr ateb ar gyfer y cwestiynau uchod, efallai y bydd cwestiynau dilynol fel rhan o'r broses benodi.

| | |
|---|---|
| Gweithio fel AS, (*AC gynt),* Cynghorydd Lleol, Aelod Seneddol, Aelod o Senedd Ewrop, ac ati? | ☐ |
| Sefyll fel ymgeisydd ar gyfer un o'r swyddi uchod? | ☐ |
| Siarad ar ran plaid wleidyddol neu ymgeisydd? | ☐ |
| Gweithredu fel asiant gwleidyddol? | ☐ |
| Bod yn Gadeirydd, Trysorydd neu Ysgrifennydd ar gyfer cangen leol o blaid wleidyddol? | ☐ |
| Canfasio ar ran plaid wleidyddol neu wedi helpu yn ystod etholiadau? | ☐ |
| Ymgymryd ag unrhyw weithgaredd gwleidyddol arall yr ydych yn ei ystyried yn berthnasol? | ☐ |
| Wedi gwneud rhodd ariannol gofnodadwy i blaid wleidyddol? | ☐ |

## Adran 6 – Ymrwymiad

### 6.1 Ymrwymiad i'r rôl

Sylwer. *Gweler y ddogfen Canllawiau a Manyleb*

Nodwch pryd y byddwch ar gael i i gefnogi'r Bwrdd Ymgynghorol Sector Preifat

### 6.2 Ymrwymiadau Blaenorol

Rhowch wybod a oes gennych unrhyw ymrwymiadau blaenorol yr ystyrir eu bod yn wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r penodiad hwn.

## Adran 7 – Datganiad

Wrth wneud cais am y swydd hon rydych yn ymrwymo i'r egwyddorion fel y'u nodir yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon.

Gofynnir i bob cynrychiolydd o'r sector preifat lofnodi Cytundeb Ymgynghorwyr yn eu gorfodi i gydymffurfio ag egwyddorion sylfaenol Côd Ymddygiad Aelodau y mae'n rhaid i aelodau cyfetholedig gytuno iddynt.

Mae'r cytundeb ymgynghorwyr ar gael ar gais.

Datganiad: Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddir yn y ffurflen hon yn gywir

Llofnod: ____________________________ Dyddiad: ____________________________

**Atodiad 1: Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus** *Cyhoeddwyd 31 Mai 1995*

**Egwyddorion Nolan**

Mae Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (a elwir hefyd yn Egwyddorion Nolan) yn berthnasol i unrhyw un sy'n gweithio fel deiliad swydd gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys pawb sy'n cael eu hethol neu eu penodi i swydd gyhoeddus, yn genedlaethol ac yn lleol, a'r holl bobl a benodir i weithio yn y Gwasanaeth Sifil, llywodraeth leol, yr heddlu, y llysoedd a'r gwasanaethau prawf, cyrff cyhoeddus anadrannol, ac yn y gwasanaethau iechyd, addysg, cymdeithasol a gofal. Mae'r holl ddeiliaid swydd gyhoeddus yn weision i'r cyhoedd ac yn stiwardiaid adnoddau cyhoeddus. Mae'r egwyddorion hefyd yn berthnasol i bawb mewn sectorau eraill sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus.

**Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus**
Mae'r Pwyllgor Safonau Cyhoeddus wedi nodi'r **'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus'** y mae o'r farn y dylent fod yn berthnasol i bawb sydd mewn gwasanaeth cyhoeddus. Sef:

**Anhunanoldeb**
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn iddynt hwy, eu teulu neu eu ffrindiau, elwa’n ariannol neu elwa mewn ffordd arall.

**Uniondeb**
Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain mewn sefyllfa o ddyled ariannol neu unrhyw ddyled arall i sefydliadau neu unigolion allanol a allai geisio dylanwadu ar y ffordd y maent yn perfformio’u dyletswyddau swyddogol.

**Gwrthrychedd**

Wrth gyflawni busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon neu fuddiannau, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau yn ôl haeddiant.

**Atebolrwydd**
Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i’r cyhoedd am eu penderfyniadau a’u gweithredoedd a rhaid iddynt wneud eu hunain yn destun pa bynnag archwiliad sy’n addas i’w swydd.

**Bod yn agored**
Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl ynghylch yr holl benderfyniadau a gweithrediadau a wneir ganddynt. Dylent roi rhesymau am eu penderfyniadau a pheidio â chyfyngu ar y wybodaeth onid oes angen am hynny er budd ehangach y cyhoedd.

**Gonestrwydd**
Mae’n ddyletswydd ar ddeiliaid swyddi cyhoeddus i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy’n berthnasol i’w dyletswyddau cyhoeddus a dylent gymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro a allai godi mewn modd sy’n diogelu buddiannau cyhoeddus.

**Arweinyddiaeth**

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo ac ategu'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl.